CWPAN Y BYD: CHWARAE TEG?

TROSOLWG I'R ATHRO

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?*
- Strwythur *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?*
- Trosolwg o'r sesiynau
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Amseru
- Nodiadau addysgu pwysig
- Gwybodaeth gefndir
- Amlinelliad manwl o'r adnoddau
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaethau

Cyflwyniad

Cwpan y Byd

Ym mis Mehefin 2018 bydd Cwpan y Byd FIFA yn cael ei chynnal yn Rwsia, â llygaid y byd cyfan arni. Ond a yw'r 32 o wledydd sy'n chwarae yn erbyn ei gilydd yng Nghwpan y Byd yn gyfartal? Mewn gwirionedd, mae gwahaniaethau mawr rhwng gwledydd o ran incwm a chyfleoedd bywyd, yn ogystal ag ymhlith pobl o fewn yr un wlad. A yw hyn yn deg? Nid cwestiwn ar gyfer Cwpan y Byd yn unig yw hwn, ond hefyd ar gyfer bywyd yn fwy cyffredinol.

Mae'r adnodd trawsgwricwlaidd hwn ar gyfer plant 9-14 oed yn defnyddio Cwpan y Byd er mwyn i ddysgwyr fynd i'r afael yn feirniadol â'r cwestiwn: *a yw'r byd yn lle teg?* Trwy'r ymwneud hwn, byddant yn ystyried yn ofalus un mater byd-eang cyfredol o bwys allweddol – anghydraddoldeb. Bydd y dysgwyr yn cymharu ystadegau am y gwledydd sy'n chwarae yng Nghwpan y Byd, gan gynnwys eu safleoedd ar restr detholion FIFA, incwm cyfartalog a lefelau anghydraddoldeb. Byddant hefyd yn archwilio anghydraddoldeb rhwng y rhywiau o safbwynt pêl-droed, gan ystyried yn feirniadol pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn ystyried perthynas tegwch â rheolau, nid yn unig o ran tegwch y gêm bêl-droed, ond yn ein cymdeithas yn gyffredinol.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nodau *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?*

- Defnyddio data bywyd go iawn a Chwpan y Byd i ennyn diddordeb dysgwyr a'u galluogi i weld perthnasedd ymarferol mathemateg, Cymraeg, daearyddiaeth, astudiaethau cymdeithasol (Yr Alban) ac addysg gorfforol yn y byd o'u cwmpas.
- Annog arddulliau addysgu a dysgu cyfranogol, ymchwiliol a chydweithredol.
- Hyrwyddo sgiliau meddwl yn feirniadol am faterion a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â themâu anghydraddoldeb a thegwch.

Strwythur *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?*

Mae'r adnodd yn cynnig pedair sesiwn, un ar gyfer pob un o'r meysydd pwnc a nodir uchod. Yn ddelfrydol, bydd y dysgwyr yn cwblhau'r holl sesiynau ar gyfer y pedwar maes pwnc; fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd gweithio mewn modd trawsgwricwlaidd yn bosibl ym mhob ysgol. Rydym wedi sicrhau, felly, y gall athrawon hefyd ddefnyddio'r sesiwn ar gyfer eu maes pwnc ar ffurf adnodd annibynnol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd yn rhannau o'r cynnwys rhwng y gwahanol sesiynau; fodd bynnag, gobeithio y bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu a bod yn ddolen gyswllt rhwng y meysydd pwnc.

Rydym wedi ceisio cadw'r adnoddau mor hyblyg â phosibl ym mhob maes pwnc, fel y gall athrawon greu teithiau dysgu wedi'u personoli i'w dysgwyr, wrth hefyd gynnal y neges am anghydraddoldeb drwyddi draw. Gall athrawon benderfynu hepgor rhai gweithgareddau, yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael ac ar wybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eu dysgwyr. Gall hefyd fod yn briodol i wasgaru'r gweithgareddau mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda throsolwg ac yn cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu, cwestiynau allweddol a chysylltiadau â'r cwricwlwm. Darperir gweithgareddau awgrymedig, â bras amseroedd, ond nid ydynt yn cynnwys yr amser y gellir fod ei angen i addysgu rhai cysyniadau ymhellach. Gan fod y sesiynau wedi'u cynllunio i'w defnyddio mewn modd hyblyg, gall yr amser a dreulir i gwblhau'r holl weithgareddau amrywio. Ni chaiff unrhyw gyflwyniadau cychwynnol na sesiynau llawn eu cynnwys, gan y tybir y bydd athrawon am gynllunio'r rhain eu hunain. Rhestrir yr holl daflenni Adnoddau a Gweithgareddau yn nhrosolwg y sesiwn. Mae hefyd sioe sleidiau ategol ar gyfer pob sesiwn. Ceir gwybodaeth ychwanegol yn y nodiadau ar gyfer rhai o'r sleidiau.

Yn ogystal â'r pedwar cynllun sesiwn a'r sioeau sleidiau, mae'r adnodd hefyd yn cynnwys *Cwis Cwpan y Byd* ar-lein, *Syniadau Trawsgwricwlaidd* a gêm *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd*.

Trosolwg o'r sesiynau

Mathemateg

Bydd dysgwyr yn defnyddio ffracsiynau ac iaith tebygolrwydd i ddisgrifio'r siawns sydd gan wahanol dimau o ennill Cwpan y Byd 2018. Byddant wedyn yn trafod rhesymau posibl pam y mae rhai timau'n fwy tebygol o ennill nag eraill, gan gysylltu hyn, nid yn unig â phêl-droed, ond hefyd â materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r adnoddau sydd ar gael i wledydd. Nesaf, bydd dysgwyr yn ymchwilio i weld a yw timau Cwpan y Byd yn dod o wledydd incwm uwch neu incwm is ar y cyfan. Byddant yn defnyddio ffracsiynau a chanrannau i gymharu cyfoeth (neu incwm) gwledydd Cwpan y Byd, cyn defnyddio cymarebau i fynegi'r anghydraddoldebau incwm hyn rhwng gwledydd. Yn y gweithgaredd olaf, bydd y dysgwyr yn defnyddio "sgorau tegwch" (mynegeion GINI) i ymchwilio i ba mor deg neu gyfartal yw'r gwledydd unigol sy'n chwarae yng Nghwpan y Byd. Bydd y dysgwyr yn cymharu'r sgorau ar gyfer gwahanol wledydd ac yn eu rhoi mewn trefn, cyn cyfrifo'r sgôr gymedrig

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

neu gyfartalog. Byddant yn defnyddio eu canfyddiadau i ystyried a yw gwledydd Cwpan y Byd yn gyfartal ar y cyfan, ai peidio.

Daearyddiaeth

Bydd y dysgwyr yn ystyried nodweddion tebyg a gwahaniaethau posibl rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Yna, byddant yn defnyddio gêm Cardiau Cryfion Cwpan y Byd i ymchwilio i'r modd y mae incwm blynyddol cyfartalog y pen, sgôr tegwch a safleoedd ar restr detholion FIFA yn amrywio rhwng y gwledydd hyn, cyn mynd ati i drafod yr hyn sy'n debygol o achosi'r anghydraddoldebau hyn rhwng gwledydd. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn graddliwio mapiau o'r byd i ddangos rhai o'r gwahaniaethau hyn rhwng gwledydd, a thrafod rhai rhesymau "pêl-droed" a rhai "nad ydynt yn ymwneud â phêl-droed" pam y mae gan rai gwledydd fwy o siawns o ennill Cwpan y Byd nag eraill

Cymraeg

Bydd dysgwyr yn defnyddio "llinell gytuno" i ystyried eu canfyddiadau a'u hagweddau tuag at rywedd a chwaraeon. Yna, byddant yn cydweithio mewn grwpiau i ddarllen a threfnu gwybodaeth er mwyn datrys 'dirgelwch' ynghylch pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion. Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi dysgwyr i gael trafodaeth strwythuredig ar y pwnc, gan drafod y rhwystrau sy'n wynebu menywod yn y byd pêl-droed a'r ffyrdd posibl o'u goresgyn. Yn olaf, bydd dysgwyr yn trafod enghreifftiau eraill o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas yn ehangach, cyn ystyried y newidiadau y maent am eu gweld yn y maes hwn yn y dyfodol.

Addysg Gorfforol

Bydd y dysgwyr yn defnyddio cyd-destun y byd pêl-droed i ystyried perthynas pêl-droed â rheolau. Byddant yn ystyried, nid yn unig sut y defnyddir rheolau i wneud y gêm bêl-droed yn "deg", ond hefyd pam y mae'n haws i rai pobl fynd ati i chwarae pêl-droed nag eraill. Bydd dysgwyr yn archwilio sut y gallent ddefnyddio rheolau i wneud y gêm yn fwy cynhwysol, cyn llunio eu rheolau eu hunain ar gyfer twrnamaint pêl-droed "teg" lle mae pawb yn gallu cymryd rhan. Bydd hyn yn annog y dysgwyr i feddwl sut y gall rheolau mewn cymdeithas wneud bywyd yn decach i bawb.

Gwahaniaethu

Lle y bo hynny'n bosibl, gwahaniaethir y gweithgareddau a'r adnoddau er mwyn helpu i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gallai hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn.

Grŵp oedran

Mae'r adnoddau hyn yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr rhwng 9 a 14 oed. Fodd bynnag, gellid hefyd addasu llawer o'r gweithgareddau i'w defnyddio gyda dysgwyr iau neu hŷn.

Nodiadau addysgu pwysig

- Bwriad y gweithgareddau a'r adnoddau hyn yw cefnogi eich addysgu, yn hytrach na'i arwain. Gall fod angen addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai cysyniadau.
- Ailadroddir rhywfaint o'r cynnwys, megis yr wybodaeth gefndir am anghydraddoldeb, yn y sesiynau pwnc-benodol. Efallai y bydd athrawon sy'n defnyddio un o'r sesiynau hyn am wirio nad yw dysgwyr wedi ymdrin ag unrhyw ran o'r cynnwys mewn meysydd cwricwlwm eraill.
- Gall rhywfaint o'r data yn yr adnodd hwn newid, megis y data gan Fanc y Byd a safleoedd FIFA. Felly, efallai y gwelwch, os yw eich dysgwyr yn dod o hyd i ddata eu hunain o'r rhyngrwyd,

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

fod eu ffigurau ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn yr adnodd hwn, a oedd yn gywir adeg eu cyhoeddi.

- Roedd yr holl ddolenni gwe a ddarparwyd yn gywir adeg eu cyhoeddi.

Gwybodaeth Gefndir

Anghydraddoldeb

Anghydraddoldeb yw'r thema sydd wrth wraidd yr adnodd hwn. Mae'n cyfeirio at wahaniaethau mawr o fewn poblogaethau o ran eu cyfoeth, eu hincwm a'u mynediad at wasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau o fewn yr un wlad, neu rhwng gwledydd â'i gilydd. Gall anghydraddoldeb hefyd ymwneud â chyfleoedd (cyfleoedd bywyd) anghyfartal a'u canlyniadau.

Mae bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd, bellach, mewn llawer o wledydd ledled y byd, ac mae'r bwlch yn tyfu. Yn 2017, cafwyd y cynnydd mwyaf erioed mewn biliwnyddion, gydag un biliwnydd newydd yn cael ei ychwanegu at y rhestr yn amlach na phob dau ddiwrnod. Tyfodd cyfoeth y biliwnyddion hyn, y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn ddynion, $762bn mewn 12 mis. Gallai'r cynnydd sylweddol hwn fod wedi rhoi terfyn ar dlodi eithafol yn y byd saith gwaith drosodd. Yn hytrach, yn 2017, aeth 82% o'r cyfoeth a grëwyd ledled y byd i'r 1% cyfoethocaf, ac ni welwyd cynnydd o gwbl yng nghyfoeth hanner tlotaf y byd[1].

Mae saith o bob deg o bobl yn y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Pe bai cyfoeth cyfan y blaned yn cael ei rannu'n ddau, byddai bron hanner ohono'n mynd i'r 1 y cant cyfoethocaf, a'r hanner arall i'r 99 y cant sy'n weddill o'r boblogaeth. Mae anghydraddoldeb ar gynnydd yn y DU. Yn 2014, roedd y pum teulu cyfoethocaf yn y DU yn berchen ar fwy o gyfoeth na'r 20 y cant isaf o'r boblogaeth (12.6 miliwn o bobl). Yn wir, mae cyfran cyfanswm y cyfoeth sy'n eiddo i'r 1% cyfoethocaf wedi cynyddu'n gyson yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gan gyrraedd 24% yn 2016.

Er ein bod yn cydnabod y bydd peth anghydraddoldeb o hyd, mae digon o gyfoeth yn y byd er mwyn i bawb ffynnu. Fodd bynnag, mae'r penderfyniadau economaidd a gwleidyddol bwriadol a wneir gan y rhai sydd mewn grym yn parhau i sianelu cyfoeth i ychydig rai elît. Mae'r dosbarthiad cyfoeth annheg hwn yn tanseilio'r frwydr yn erbyn tlodi. Mae Oxfam yn galw am fwy o dryloywder ar gyfer treth – er mwyn sicrhau bod yr unigolion cyfoethocaf a'r corfforaethau rhyngwladol yn talu eu cyfran deg o dreth, bod mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus megis gofal iechyd ac addysg, a bod gwaith a chyflogau teilwng i bawb, er mwyn helpu i leihau'r bwlch economaidd rhwng y cyfoethog a'r gweddill.

I weld y gweithgarwch ymgyrchu diweddaraf, ewch i:

www.oxfam.org.uk/get-involved/campaign-with-us/inequality-and-poverty

Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau

Cymysg yw'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd diwethaf i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau, a gwneud bywyd yn decach i fenywod a merched ledled y byd. Dim ond 100 mlynedd yn ôl y cafodd rhai menywod yr hawl i bleidleisio yn y DU, ond heddiw, y mae gan fenywod yr hawl i bleidleisio ym mron pob gwlad yn y byd. Mae mwy o ferched yn mynd i'r ysgol nag erioed o'r blaen. Mae mwy o fenywod yn gweithio am dâl ac mae cyfreithiau mewn grym ledled y byd i gefnogi anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

[1] D Alejo Vázquez Pimentel, I Macías Aymar a M Lawson (2018). *Reward Work, Not Wealth: To end the inequality crisis, we must build an economy for ordinary working people, not the rich and powerful.* Oxfam.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Fodd bynnag, nid yw'n fêl i gyd; mae llawer i'w wneud eto cyn i gyfleoedd bywyd fod yn gyfartal i fenywod a dynion. Mae mwyafrif y rhai sy'n byw mewn tlodi yn fenywod ac yn ferched[2]. O'i gymharu â dynion, mae ganddynt lai o adnoddau, llai o bŵer a llai o ddylanwad yn y broses o wneud penderfyniadau. Hyd yn oed pan mae'r cyfreithiau cywir mewn grym, nid oes o reidrwydd gan fenywod fynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt, na chefnogaeth eu cymunedau yn gefn iddynt. Maent yn agored i wahanol fathau o drais a cham-fanteisio, ac yn profi anghydraddoldeb pellach oherwydd rhannau eraill o'u hunaniaeth, megis ethnigrwydd, oedran, hil, dosbarth, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod mewn gwaith â chyflog isel. Maent yn ennill llai o gyflog am wneud yr un rolau, ac maent yn aml yn y rolau sy'n derbyn llai o gyflog, hefyd. Ar gyfartaledd, mae menywod yn gwneud dwywaith cymaint o waith gofal di-dâl â dynion, megis gofal plant a gwaith tŷ – weithiau 10 gwaith cymaint, yn aml ar ben eu gwaith cyflogedig[5]. Dim ond 23% o seneddwyr ledled y byd sy'n fenywod[3]. Ar y gyfradd cynnydd bresennol, amcangyfrifir y bydd 217 o flynyddoedd cyn y bydd menywod yn gydradd â dynion.[4]

Yn Oxfam credwn fod trawsnewid cysylltiadau rhywedd a phŵer, a'r strwythurau, y normau a'r gwerthoedd sy'n sylfaen iddynt, yn hanfodol er mwyn rhoi terfyn ar dlodi a herio anghydraddoldeb. Credwn mai'r sbardun pwysicaf i greu gwelliannau parhaus ym maes hawliau menywod yw i fenywod eu hunain gymryd rheolaeth a gweithredu ar y cyd. Dyma rym pwerus i roi terfyn ar dlodi, nid yn unig i fenywod a merched, ond i eraill hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.oxfam.org.uk/women-unlimited

Anghydraddoldeb yn y byd pêl-droed

Mae pêl-droed clybiau Ewrop yn dod yn fwyfwy anghyfartal wrth i gytundebau teledu newydd sianelu mwy o arian i nifer bach o glybiau elît. Mae'r holl incwm teledu a rennir gan 72 tîm Cynghrair Pêl-droed Lloegr (y clybiau yn y Bencampwriaeth, Adran 1 ac Adran 2) yn gyfystyr â dim ond 3% o incwm teledu'r Uwch Gynghrair. Gwelir canlyniadau'r anghydraddoldeb cynyddol hwn yn y nifer uchel o bwyntiau sy'n gwahanu llawer o bencampwyr oddi wrth oreuon y gweddill mewn cynghreiriau pêl-droed ledled Ewrop. Yn ystod tymor 2017-18, roedd cynghreiriau cenedlaethol yn hynod anghystadleuol ledled Ewrop. Enillodd Manchester City yr Uwch Gynghrair o 19 pwynt, arweiniodd Barcelona La Liga o 12 pwynt ac arweiniodd Bayern Munich y Bundesliga o 21 pwynt.

Mae pêl-droed rhyngwladol yn gweithredu o dan amgylchiadau ariannol tebyg i bêl-droed clybiau, ac mae incwm gwledydd yn un o'r dangosyddion dibynadwy o'u safle ym mhêl-droed y byd. Fodd bynnag, mae "profiad pêl-droed" yn ffactor arall sy'n anodd ei ddiffinio a ellir ei ddefnyddio i ragweld llwyddiant ar y cae. Gall hyn helpu gwledydd tlotach a llai o faint i ddal i fyny â'u cystadleuwyr cyfoethocach, mwy o faint. Er enghraifft, mae'r hawl i symud talent y byd pêl-droed yn rhydd mewn byd sydd wedi'i globaleiddio yn helpu timau cenedlaethol mewn gwledydd tlotach. Gan mai ar gyfer eu gwlad enedigol yn unig y bydd pêl-droedwyr yn chwarae iddynt, o bosibl, mae presenoldeb sêr megis Mohamed Salah, Lerpwl a'r Aifft, yng Nghwpan y Byd yn cynrychioli'r llif o'r "cymorth pêl-droed" sy'n dychwelyd o wledydd cyfoethog i rai tlotach. Rhoddir sgiliau sydd wedi'u meithrin a'u datblygu yn Lloegr yn nwylo tîm yr Aifft. Yn yr un modd, mae'r rhwydwaith byd-eang o hyfforddwyr elît sy'n gweithio ar draws ffiniau cenedlaethol, ynghyd â lledaeniad cyflym dulliau hyfforddi ledled y byd, hefyd yn helpu *i'w wneud yn fwy cyfartal.* Mae hyd yn oed ymwybyddiaeth y cyhoedd sy'n dilyn

[2] F. Rhodes, A Parvez a R. Harvey (2017). *An economy that works for women.* Oxfam. www.oxfam.org/en/research/economy-works-women

[3] archive.ipu.org/wmn-e/world.htm

[4] World Economic Forum (2017) The Global Gender Gap Report. www.weforum.org/reports/the-global-gender-gap-report-2017

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

pêl-droed o dactegau ac arddulliau chwarae, a rennir yn helaeth gan deledu byd-eang, ynghyd â'r brwdfrydedd diddiwedd dros bêl-droed, yn helpu gwledydd tlotach i fagu profiad yn gyflym.

Felly, mae cystadlaethau rhyngwladol fel Cwpan y Byd yn cael eu cynnal ar gae chwarae llawer mwy cyfartal. Ni wireddwyd yr hyn a gafodd ei ddarogan gan Pele, sef y byddai cenedl Affricanaidd yn ennill Cwpan y Byd cyn 2000; yn y tymor canolig, efallai nad yw hynny'n awgrym gwbl amhosibl, bellach.

Darllenwch ragor:

www.oxfam.org.uk/education/education-blog/2014/06/globalisation-inequality-and-football

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cwpan y Byd – Chwarae Teg?

Amlinelliad manwl o'r adnoddau

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Mathemateg: *Cyfartal neu anghyfartal?*	• Cymhwyso gwybodaeth am ffracsiynau a thebygolrwydd i ddisgrifio'r siawns sydd gan wahanol dimau o ennill Cwpan y Byd 2018. • Defnyddio ffracsiynau, canrannau a chymarebau i gymharu incwm gwahanol wledydd. • Dehongli data bywyd go iawn a'u defnyddio i ddod i gasgliadau. • Cyfrifo cymedr set o rifau. • Datblygu sgiliau trafod a meddwl yn feirniadol.	• Bydd y dysgwyr yn defnyddio ffracsiynau, iaith tebygolrwydd a safleoedd FIFA i asesu'r siawns sydd gan wahanol dimau o ennill Cwpan y Byd 2018. • Bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am resymau posibl sy'n gysylltiedig â phêl-droed, a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â phêl-droed a allai effeithio ar siawns tîm o lwyddo. • Bydd dysgwyr yn defnyddio marciau cyfrif, ffracsiynau, canrannau a chymarebau i gymharu data anghydraddoldeb o'r gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. • Bydd dysgwyr yn trafod ystyr anghydraddoldeb byd-eang a goblygiadau posibl hyn i bobl sy'n byw mewn gwledydd "tlotach" neu "gyfoethocach".	• A oes gan bob tîm siawns gyfartal o ennill Cwpan y Byd? Pam? / Pam ddim? A yw hyn yn deg? • Pa mor gyfoethog yw'r gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018? • Pa mor gyfartal neu anghyfartal yw'r bobl sy'n byw yn y gwledydd hyn? • Pa wledydd sydd fwyaf cyfartal? • Pa wledydd sydd fwyaf anghyfartal?	• Gweithgaredd 1: *Beth yw'r siawns o ennill?* • Gweithgaredd 2: *Cymharu incwm* • Gweithgaredd 3: *Sgorau tegwch*	• Sioe sleidiau Fathemateg *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?* • Taflenni adnoddau: 1. *Rhestr Detholion FIFA* 2. *Tabl ystadegau Cwpan y Byd (a ddarperir hefyd ar ffurf taenlen MS Excel ar wahân)* 3. *Cymarebau anghydraddoldeb Cwpan y Byd – tabl wedi'i lenwi* • Taflenni gweithgareddau: 1. *Incwm gwledydd Cwpan y Byd* 2. *Cymarebau anghydraddoldeb Cwpan y Byd* 3. *Sgorau tegwch – cymharu timau* 1. *Sgorau tegwch – cymharu grwpiau*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Daearyddiaeth: *Mapio'r gwahaniaethau*	• Adnabod rhai nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng, ac o fewn, gwahanol wledydd. • Datblygu sgiliau daearyddol wrth ddefnyddio mapiau, a dadansoddi a dehongli gwahanol ffynonellau data. • Meddwl yn feirniadol ynghylch rhai rhesymau posibl sy'n creu rhai o'r anghydraddoldebau rhwng gwledydd.	• Bydd y dysgwyr yn rhestru ac yn trafod nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau posibl a all fodoli rhwng gwledydd ac o fewn gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. • Bydd dysgwyr yn chwarae gêm *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd* i adnabod ac i drafod y modd y mae incwm cyfartalog y pen, sgôr tegwch a safle ar restr detholion FIFA yn amrywio rhwng gwledydd. • Bydd dysgwyr yn graddliwio ar fap o'r byd i ddangos sut y mae incwm cyfartalog a safleoedd FIFA yn amrywio rhwng gwledydd.	• Beth yw'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018? • Beth yw anghydraddoldeb? • Yn eich barn chi, beth yw'r rhesymau dros yr anghydraddoldebau hyn? • Pam y mae rhai gwledydd yn fwy tebygol o ennill Cwpan y Byd nag eraill? • Ydych chi'n credu bod y gwahaniaethau hyn yn deg? Pam yr ydych yn meddwl hyn?	• Gweithgaredd 1: *Nodweddion tebyg a Gwahaniaethau* • Gweithgaredd 2: *Cardiau Cryfion Cwpan y Byd* • Gweithgaredd 3: *Mapio anghydraddoldebau rhwng gwledydd*	• Sioe Sleidiau Ddaearyddiaeth *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?* • Darnau mawr o bapur (un i bob grŵp o dri o ddysgwyr) neu bapur siart troi (dau ddarn) ac ambell nodyn gludiog (dau neu dri i bob dysgwr neu grŵp/pâr o ddysgwyr) • Setiau o bensiliau lliwio (Rhwng dwy a phedair gradd o ambell liw) • Taflen adnoddau: 1. *Tabl Ystadegau Cwpan y Byd (hefyd wedi ei ddarparu ar ffurf taenlen MS Excel ar wahân)* • Taflenni gweithgareddau (un copi A3 o un o'r rhain ar i bob pâr o ddysgwyr): 1. *Mapio incwm blynyddol cyfartalog y pen* 2. *Mapio Safleoedd ar restr detholion FIFA* 3. *Mapio sgorau tegwch*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Cymraeg: *Pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion?*	• Defnyddio tystiolaeth mewn testun i gyfiawnhau ymateb. • Datblygu sgiliau meddwl beirniadol, cydweithio a thrafod. • Archwilio a herio eu tybiaethau a'u canfyddiadau eu hunain, a rhai eraill. • Deall ystyr anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, yng nghyd-destun pêl-droed ac o ran cyfleoedd mewn bywyd yn gyffredinol.	• Bydd dysgwyr yn defnyddio "llinell gytuno" i ystyried eu canfyddiadau a'u hagweddau eu hunain, a rhai eraill, ynghylch rhywedd a chwaraeon. • Bydd dysgwyr yn cydweithio mewn grwpiau i ddarllen, trefnu a thrafod datganiadau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb mewn pêl-droed. • Caiff dysgwyr eu cyflwyno i enghreifftiau eraill o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas yn ehangach, cyn ystyried pa newidiadau y maent yn dymuno eu gweld yn y maes hwn yn y dyfodol.	• Pam y byddai rhywun yn meddwl bod math penodol o chwaraeon yn fwy "gwrywaidd" neu "fenywaidd"? • A ddylai fod gan ddynion a menywod fynediad cyfartal at wneud chwaraeon o bob math? A ddylid talu dynion a menywod yr un cyflog am gymryd rhan yn yr un math o chwaraeon? Pam?/Pam ddim? • Beth ydych chi'n credu sy'n rhwystro menywod rhag chwarae pêl-droed? Ydych chi'n credu bod y rhwystrau hyn yn gyffredin ym mhob rhan o'r byd? Pam? / Pam ddim? Sut yr ydych chi'n credu y gellid datrys yr heriau hyn? • A allwch chi feddwl am enghreifftiau eraill lle nad yw cyfleoedd bywyd yn gyfartal i fenywod a dynion neu ferched a bechgyn? • Beth yr hoffech chi ei weld yn digwydd i faes cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y dyfodol?	• Gweithgaredd 1: *Ble rydych* chi'n sefyll? • Gweithgaredd 2: *Pam y mae llai o fenywod yn chwarae pêl-droed na dynion?* • Gweithgaredd 3: *Cyfartal neu anghyfartal yn y dyfodol?*	• Sioe Sleidiau Gymraeg*: Cwpan y Byd: Chwarae Teg?* • Taflenni adnoddau: 1. *Cardiau Dirgel Pêl-droed 1* 2. *Cardiau Dirgel Pêl-droed 2* • Taflen weithgaredd: 1. *Dyfodol delfrydol*
Addysg Gorfforol: *Gwneud y gêm yn decach i bawb*	• Ystyried sut y gall rheolau wneud y gêm bêl-droed yn "decach" neu'n llai "teg" i bawb sy'n cymryd rhan. • Penderfynu sut i wneud rheolau mewn twrnamaint pêl-droed, a'u newid i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn gyfartal. • Cymharu rheolau chwaraeon â rheolau sy'n helpu i wneud cymdeithas yn lle tecach.	• Bydd dysgwyr yn trefnu ac yn cynnal twrnamaint pêl-droed "teg" sy'n galluogi pawb i gymryd rhan lawn ynddo. • Bydd dysgwyr yn trafod a yw ein cymdeithas yn deg a pha reolau y gellid eu creu i'w helpu i'w gwneud yn decach.	• Pam y mae gennym reolau? A yw rheolau'n gwneud pethau'n deg? • A ddylai pawb gael eu trin yn gyfartal? • Sut y mae rheolau'n gwneud y gêm bêl-droed/ysgol/y byd yn decach? • Sut y byddech chi'n gwneud y byd yn lle tecach?	• Gweithgaredd 1*: A yw rheolau'n gwneud pethau'n deg?* • Gweithgaredd 2: *Cynllunio twrnamaint pêl-droed "teg* • Gweithgaredd 3: *Twrnamaint pêl-droed "teg"* • Gweithgaredd 4: Gwerthuso ein *Twrnamaint pêl-droed "teg"*	• *Cwpan y Byd: Chwarae Teg?* Sioe Sleidiau Addysg Gorfforol • Taflenni gweithgaredd: 1. *Helpu pawb i gymryd rhan mewn ffordd deg* 2. *Arwyddair y tîm*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Adnodd dinasyddiaeth fyd-eang yw hwn a ysgrifennwyd ar gyfer athrawon daearyddiaeth (astudiaethau cymdeithasol yn yr Alban), Cymraeg, Saesneg, mathemateg ac addysg gorfforol sy'n gweithio gyda phlant 9 i 14 oed. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull Dysgu – Meddwl – Gweithredu, i helpu i roi strwythur i weithgareddau Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, ac ymddwyn yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd gynnwys sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler:

www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma brif elfennau dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a cyd-ddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Camau gweithredu gwybodus a myfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

- I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at Gwpan y Byd drwyddo draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes cysylltiad mewn unrhyw ffordd rhwng FIFA a'r adnodd hwn.